CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**13 Gorffennaf 2023**
Teitl:	**Adroddiad am y newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r Canllaw i'r Cyfansoddiad**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried y newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r Canllaw i'r Cyfansoddiad** **Er Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir:

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor, ac mae'n ddogfen fyw. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae fersiwn gyfredol Cyfansoddiad y Cyngor ar gael i'w gweld drwy fynd at: https://www.ceredigion.gov.uk/media/9960/cyfansoddiad-cym.pdf

Yn fwyaf diweddar, cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r Cyfansoddiad ar 20 Hydref 2022. (gallwch weld yr adroddiad a Chofnodion y Cyfarfod drwy fynd at – (https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=276&Ver=4&LLL=0)

Cynhaliwyd cyfarfod o Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad ar 25 Ebrill 2023 ac yn ystod y cyfarfod hwnnw, ystyriwyd y newidiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ar 22 Mehefin 2023 i ystyried rhagor o newidiadau a wnaed mewn ymateb i sylwadau aelodau'r gweithgor.

Newidiadau yn y Canllaw i'r Cyfansoddiad (Atodiad 1 – Detholiad)

- Diweddaru'r Strwythur Rheoli ar Dudalen 12

Newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad

Mae'r holl newidiadau wedi'u crynhoi isod ac maent i'w gweld yn yr atodiadau ar ffurf newidiadau wedi'u tracio.

Rhan 1 Crynodeb ac Esboniad (Atodiad 2)

- Mân newid i 9. Rhestr Termau Gwasanaeth o ran y Porth Cymorth Cynnar a'r Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu:
    - Ychwanegu 'tai' a dileu 'dysgu gydol oes a sgiliau' yng nghyswllt y Porth Cymorth Cynnar.

- Dileu'r cyfeiriad at 'tai' yng nghyswllt y Porth Gofal: Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

Rhan 2 – Erthyglau'r Cyfansoddiad (Atodiad 3)

Erthygl 5.2 – Cadeirio Pwyllgorau

- Dileu'r gwaharddiad ar Is-gadeirydd y Cyngor rhag bod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd ar Bwyllgorau'r Cyngor yng nghyfnod ei swydd.

Erthygl 11 – Swyddogion

- Ychwanegu Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol at Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Corfforaethol.
- Diweddaru'r tabl i nodi'r ffaith bod y gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant wedi cael enw newydd sef y gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes a bod gan y gwasanaeth ddau Swyddog Arweiniol Corfforaethol h.y. y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes.

Rhan 3 – Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor

Rhan 3.3 – Pwyllgorau'r Cyngor (Atodiad 4)

- Cynnwys Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr Elusennau yn llawn gan gynnwys y newidiadau y gwnaeth Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr Elusennau eu hargymell i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 22 Mawrth 2023 (dolen i'r agenda/cofnodion)

Rhan 3.5 E – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Atodiad 5)

- Ychwanegu "7. Gweithredu fel Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol."

Rhan 3.5 G - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Atodiad 6)

- Paragraff 3.3 - Cywiriad – newid "Equalities Act 2010" i "Equality Act 2010" yn y fersiwn Saesneg.
- Ychwanegu paragraff 3.15 gan nodi bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd "yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn unol ag adran 343AB o Ddeddf Lluoedd Arfog 2006 ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 343AE o'r un ddeddf".

Rhan 3.5 H - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio (Atodiad 7)

- Newid y cyfeiriad at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ym mharagraff 16 o Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal (Ymyrraeth wedi'i Thargedu) i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar am fod y swyddogaethau Tai wedi symud.
- Ychwanegu paragraff newydd yng nghyswllt y Pwyllgor Rheoli Datblygu sef paragraff 55: 'Unrhyw gais lle mae aelod ward lleol mewn swydd wedi datgelu buddiant sy'n rhagfarnu.'

Rhan 3.5 I – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar (Atodiad 8)

- Cael gwared â'r cyfeiriad at y swyddogaeth ganlynol ym Mharagraff 1. 'Sicrhau dyraniad cymorth grant y Cyngor Sir ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a phenderfynu ynghylch hyn.'
- Ychwanegu paragraff newydd sef paragraff 1. 'Swyddogaethau tai strategol, safonau tai ac atal digartrefedd'. Mae'r darn hwn wedi symud o Ran 3.5 J – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal.
- Ychwanegu paragraffau 2.1.3 – 2.1.5 and 2.2 – 2.10 at 2. 'Pwerau a dyletswyddau penodol'. Mae'r darnau hyn wedi'u symud o Ddogfen J – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal am eu bod yn gysylltiedig â thai.

Rhan 3.5 J – Dirprwyo yng nghyswllt y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol / Unigolyn Cyfrifol) a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) (Atodiad 9)

- Dileu paragraff 1 'Swyddogaethau tai strategol, safonau tai ac atal digartrefedd' gan fod y swyddogaethau hyn wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar.
- Dileu paragraff 2 'Pwerau a dyletswyddau penodol' gan fod pob un o'r rhain wedi'u symud i Ddogfen I – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar.

Rhan 3.5 K – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg) (Atodiad 10)

- Nodi bod y rhan hon wedi'i hail-enwi a'i bod yn rhoi sylw i'r hyn a ddirprwyir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant) am fod swydd newydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes wedi'i chreu a bod y swyddogaethau 'diwylliant' wedi'u symud i'r swydd Dysgu Gydol Oes newydd.
- Newid y geiriad i nodi bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes wedi'i dynodi a'i phenodi'n Brif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Arweiniol y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
- Ychwanegu bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion wedi'i ddynodi a'i benodi'n Ddirprwy Brif Swyddog Addysg.
- Mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n adrannau ar gyfer y canlynol:
    - Swyddogaethau a ddirprwyir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes
    - Swyddogaethau a ddirprwyir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes.
- Mae'r holl swyddogaethau a ddirprwywyd yn flaenorol i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant bellach wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes.

- Ychwanegu “1. Grantiau Sicrhau dyraniad cymorth grant y Cyngor Sir ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a phenderfynu ynghylch hynt” at y swyddogaethau a ddirprwyir i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, ar ôl i’r swyddogaeth hon gael ei symud o Ddogfen I – Dirprwyo i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar.

Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn

Rhan 4 – Dogfen C – Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a’r Fframwaith Polisi (Atodiad 11)

- Ychwanegu’r gofyniad canlynol ym mharagraff 2.3: Os mai bwriad y Cabinet yw cymeradwyo cynigion cadarn ar gyfer y gyllideb ar wahân i’r rheini a argymhellir gan y Swyddog Adran 151, rhaid gohirio’r cyfarfod am gyfnod o 5 diwrnod gwaith er mwyn caniatáu digon o amser i’r Swyddog Adran 151 baratoi adroddiad am effaith y cynigion. Caiff yr adroddiad hwnnw wedyn ei gyflwyno i’r Cabinet. Caiff unrhyw ofyniad i ohirio’r cyfarfod ei ddileu os bydd y Swyddog Adran 151 yn cadarnhau nad oes angen adroddiad neu caiff y cyfnod dan sylw ei leihau os bydd y Swyddog Adran 151 wedi paratoi adroddiad mewn cyfnod byrach a'i fod yn fodlon ailymgynnull cyfarfod y Cabinet.
- Ychwanegu’r gofyniad canlynol ym mharagraff 2.5: Os mai bwriad y Cyngor yw rhoi ei gynigion ei hun yn lle’r cynigion hynny a argymhellir gan y Cabinet, rhaid gohirio’r cyfarfod am gyfnod o 5 diwrnod gwaith er mwyn caniatáu digon o amser i’r Swyddog Adran 151 baratoi adroddiad am effaith cynigion y Cyngor. Caiff yr adroddiad hwnnw wedyn ei gyflwyno i’r Cyngor. Caiff unrhyw ofyniad i ohirio’r cyfarfod ei ddileu os bydd y Swyddog Adran 151 yn cadarnhau nad oes angen adroddiad neu caiff y cyfnod dan sylw ei leihau os bydd y Swyddog Adran 151 wedi paratoi adroddiad mewn cyfnod byrach a'i fod yn fodlon ailymgynnull cyfarfod y Cyngor, heb anghofio ar bob adeg y mae’n rhaid ailymgynnull cyfarfod o’r Cyngor cyn 11 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae’r Gyllideb a Threth y Cyngor yn cael eu gosod ar ei chyfer, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Cynnwys y gair ‘Cyngor’ ym mharagraff 2.6.
- Ail-rifo’r pwyntiau bwled er mwyn gwneud y ddogfen yn haws ei darllen.

Rhan 4 - Dogfen H – Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion (Atodiad 12)

- Ychwanegu ‘(Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol)’ at deitl paragraff 2.
- Ychwanegu paragraff 2.5.3 sy’n amlinellu’r gofynion o ran y pwyllgor rhestr fer.
- Ychwanegu 2.9 sy’n nodi “Bydd paragraffau 2.1 i 2.6 uchod hefyd yn berthnasol pan fydd y Cyngor yn cynnig penodi Prif Swyddog yn barhaol ar unrhyw lefel o gyflog.”
- Ychwanegu paragraff newydd sef Paragraff 3. ‘RECRIWTIO PRIF WEITHREDWR, PRIF SWYDDOGION A DIRPRWY BRIF SWYDDOGION (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol):
    - LLE BO’R CYFLOG YN FWY NA £100,000 AM GYFNOD HEB FOD YN HWY NA 12 MIS; NEU
    - LLE BO’R CYFLOG YN LLAI NA £100,000 AM GYFNOD HEB FOD YN HWY NA 24 MIS

- Mae'r paragraff newydd hwn yn amlinellu'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer recriwtio Prif Weithredwr, Prif Swyddog neu Ddirprwy Brif Swyddog dros dro.

Rhan 4 - Dogfen I – Y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Gweithdrefnol (Atodiad 13)

- O dan '5)b Sut mae modd gwneud cais i siarad gerbron y Pwyllgor':
  - Newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i siarad yn y Pwyllgor o'r ''dydd Mawrth' cyn y Pwyllgor i'r 'diwrnod' cyn y pwyllgor.
  - Mân newidiadau o ran y fformatio / gramadeg

Rhan 5 Codau a Phrotocolau

Rhan 5 – Dogfen K - Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion (Atodiad 14)

- 1.2 – newid "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" i "Senedd Cymru" (cymeradwywyd gan y gweithgor - 15/3/22)
- 2.1 – ychwanegu na ddylai'r Cynghorwyr (yr Aelodau) weithredu fel petaent yn Swyddogion ac ni ddylai'r Swyddogion weithredu fel petaent yn Gynghorwyr.
- 2.4 – ychwanegu'r cyfeiriad at "ymddygiad sy'n torri'r Egwyddorion sy'n llywodraethu Ymddygiad Aelodau Etholedig a Chyfetholedig Awdurdodau Lleol yng Nghymru (gweler Cod Ymddygiad yr Aelodau – Rhan 5 – Dogfen J Cyfansoddiad y Cyngor)" fel enghraifft o ymddygiad amhriodol.
- Ychwanegu "5.3 Os bydd unrhyw fater yn peri anghydfod neu anfodlonrwydd, dylid cysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu'r Prif Weithredwr."
- 5.10 - ychwanegu "Dylid gofyn am gyngor oddi wrth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol."
- 8.2 – Cael gwared â'r gair 'eithriadol'
- Ychwanegu "10.2 Ni ddylai'r Aelodau gymryd rhan mewn trafodaethau â datblygwyr, partneriaid busnes, tenantiaid busnes nac ymgynghorwyr oni bai bod swyddogion yn bresennol."
- Diweddaru'r cyfeiriadau at y canlynol: Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Swyddogion Arweiniol Corfforaethol / Rheolwyr Corfforaethol lle bo angen.
- Diweddaru'r canlynol drwyddi draw:
  - Newid 'Adran' i 'Gwasanaeth'
  - Newid 'ef/hi' a 'hi/ef' i 'nhw'

Rhan 5 – Dogfen L - Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol (Atodiad 15)

- Cynnwys y Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 4/4/23
- Dolen i'r Cofnodion / Agenda – gweler cofnod 190

Rhan 6 – Strwythur Rheoli (Atodiad 16)

Cynnwys y Strwythur Rheoli diweddaraf. Mae'r strwythur wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau o ran staff a'r newidiadau o fewn y sefydliad gan gynnwys:

- nodi bod Alan Morris wedi olynu Arwyn Morris fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh.
- nodi bod 'Ysgolion a Diwylliant' wedi newid i 'Ysgolion a Dysgu Gydol Oes'
    - nodi mai Elen James yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes (Secondiad)
    - nodi mai Clive Williams yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion (Secondiad)
- nodi bod Audrey Somerton-Edwards wedi olynu Sian Howys fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes.
- nodi bod Greg Jones wedi dod yn lle Elen James fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar (secondiad).

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo **Os naddo, nodwch pam** ***Crynodeb:*** *Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â newid mewn polisi na strategaeth.* **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhellion:	Argymhellir bod y Cyngor yn gwneud y canlynol: 1. Cymeradwyo'r Canllaw i'r Cyfansoddiad fel y'i diwygiwyd **(Atodiad 1)**; 2. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad (**Atodiadau 2 – 16)**; ac 3. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod.
Rhesymau dros yr argymhellion:	• Er mwyn cadw at y ddeddfwriaeth • Er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad a'r Canllaw i'r Cyfansoddiad yn addas i'r diben
Trosolwg a Chraffu:	Ddim yn berthnasol
Fframwaith Polisi:	Y Cyfansoddiad
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	

	Os na chyflwynir y newidiadau hyn, ni fyddwn yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol na'r canllawiau statudol.
Goblygiadau o ran staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau :	Dim
Risgiau:	Heb y newidiadau hyn, ni fydd y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru ac ni fydd yn addas i'r diben.
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents/welsh Deddf Etholiadau 2022: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2022/37/contents
Papurau Cefndir:	Adroddiad i'r Cyngor – 20 Hydref 2022 a Chofnodion y Cyfarfod: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=276&Ver=4&LLL=0
Atodiadau:	**Atodiad 1 –** Detholiad o'r Canllawiau i'r Cyfansoddiad **Atodiad 2 –** RHAN 1 – Crynodeb ac Esboniad **Atodiad 3 –** RHAN 2 - ERTHYGLAU **Atodiad 4 –** RHAN 3 – CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR **Atodiad 5 –** RHAN 3.5 E – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd **Atodiad 6 –** RHAN 3.5 G – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd **Atodiad 7 –** RHAN 3.5 H - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio **Atodiad 8 –** RHAN 3.5 I - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar **Atodiad 9 –** RHAN 3.5 J - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal **Atodiad 10 –** PART 3.5 K – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes **Atodiad 11 –** RHAN 4- DOGFEN C – Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi **Atodiad 12 –** RHAN 4 - DOGFEN H – Rheolau Gweithdrefn Rheoli Swyddogion

Atodiad 13 – Rhan 4 – Dogfen I – Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu
Atodiad 14 – RHAN 5 – DOGFEN K Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion
Atodiad 15 – Rhan 5 - Dogfen L – Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol
Atodiad 16 – RHAN 6 Strwythur Rheoli

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	22/06/2023